# Bwletin i Ddysgwyr

## Ceredigion Powys a Sir Gâr

Tachwedd 2023



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ceredigion, Powys a Sir Gâr**
**Ceredigion, Powys & Carmarthenshire**



Wrth i'r nosweithiau dynhau, mae'n amser prysur i ni yn Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys Sir Gaerfyrddin.

Mae ein Sadwrn Siarad ar Zoom ar 18 Tachwedd yn gyfle i chi ymarfer eich Cymraeg.  Cofrestrwch ar lefel eich dosbarth presennol.

Mae gennym ni gyrsiau newydd sy'n dechrau ym mis Tachwedd, Rhagfyr neu Ionawr ar wahanol lefelau.

Gall dysgwyr sydd wedi cwblhau'r cwrs Mynediad gofrestru i sefyll arholiad CBAC ar lefel Mynediad ar ddydd Gwener 26 Ionawr 2024 - lleoliadau arholiadau yn dibynnu ar y galw.

Mae digonedd o gyfleodd i ymarfer siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth a rhestrir rhai ohonynt yn y bwletin yma.

**Tîm Dysgu Cymraeg**
**Ceredigion Powys Sir Gâr**
**dysgucymraeg@aber.ac.uk**

As the nights draw in, it's a busy time for us at Learn Welsh Ceredigion Powys Carmarthenshire.

We've planned a 1 day online Saturday school on Saturday 18 of November - register on the level of your current class.

We also have some new courses starting in November, December or January at different levels.

Those who have completed the Mynediad course can register to sit a WJEC Mynediad exam on Friday 26 January 2024 - exam locations depending on demand.

There are plenty of opportunities to practise speaking Welsh outside the classroom and some of them are listed in this bulletin.

**Learn Welsh Team**
**Ceredigion Powys Carmarthenshire**
**learnwelsh@aber.ac.uk**

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ceredigion, Powys a Sir Gâr**
**Ceredigion, Powys & Carmarthenshire**

# Sadwrn Siarad

**18.11.23**
**£10**
**09:30 - 15:30**

ZOOM

| **Lefel** Level | **Gogledd** North | **De** South |
|---|---|---|
| **Blasu** Taster Class | AT24-13-SS-B-gog | AT24-12-SS-B-de |
| **Mynediad 1** Entry 1 | AT24-16-SS-M-gog | AT24-14-SS-M1-d |
| **Mynediad 2** Entry 2 | AT24-16-SS-M-gog | AT24-15-SS-M2-d |
| **Sylfaen 1 a 2** Foundation 1 & 2 | AT24-18-SS-S-gog | AT24-17-SS-S-de |
| **Canolradd 1 a 2** | AT24-19-SS-C | AT24-19-SS-C |
| **Uwch 1 a 2** | AT24-20-SS-U12 | AT24-20-SS-U12 |

**Cofrestrwch ar lefel eich dosbarth presennol**
Register on the level of your current class

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ceredigion, Powys a Sir Gâr**
**Ceredigion, Powys & Carmarthenshire**

# At a loose end on Saturdays?

## Learn Welsh with us!



We've created a brand new 20 week Saturday course so you can learn quickly with us!
**All day Saturday 9.30 -16.00 from 11 November 2023**
**Online on Zoom | only £45 for 20 weeks**
**Register here OB24-95-M12-de**
learnwelsh@aber.ac.uk | 0800 876 6975

# Cyrsiau sy'n dechrau o Tachwedd 2023
# Courses starting from Nov 23 | £45 or less

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ceredigion, Powys a Sir Gâr**
**Ceredigion, Powys & Carmarthenshire**

| Level | Details | Class Type | Location | Dialect | Day | Time | Start Date | Weeks | Course code |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Entry 1 & 2 | 20 week course for complete beginners | Online | Zoom | South | Saturday | 09:30 - 15:30 | 11/11/2023 | 20 | OB24-95-M12-de |
| Entry 1 | 30 week course for complete beginners | Classroom | Aberystwyth | South | Thursday | 19:00 - 21:00 | 09/11/2023 | 30 | NA24-19-M1-de |
| Entry 1 Welsh at Home | 30 week beginners course for parents | Online | Zoom | South | Monday | 13:15 - 14:45 | 06/11/2023 | 30 | CC24-12-M1-de |
| Entry 2 | From unit 11 of Mynediad coursebook | Online | Zoom | South | Monday | 09:30 - 12:30 | 06/11/2023 | 24 | OB24-20-M2-de |
| Entry 2 Welsh at Home | From unit 11 of Mynediad coursebook | Online | Zoom | North | Wednesday | 19:30 - 21:00 | 08/11/2023 | 24 | CC24-03-M2-gog |
| Entry 2 Welsh at Home | From unit 22 of Mynediad coursebook | Online | Zoom | South | Thursday | 10:00 - 11:30 | 09/11/2023 | 24 | CC24-08-M2-de |
| Entry 2 | From unit 15 of Mynediad coursebook | Online | Zoom | South | Tuesday | 19:00 - 21:00 | 05/12/2023 | 30 | OB24/5-05-M2-de |
| Entry 2 | From unit 19 of Mynediad coursebook | Online | Zoom | North | Tues & Thurs | 09:30 - 11:30 | 05/12/2023 | 30 | OB24/5-02-M2-gog |
| Entry 2 | From unit 15 of Mynediad coursebook | Online | Zoom | South | Tuesday | 19:00 - 21:00 | 09/01/2024 | 30 | OB24/5-08-M2-de |
| Entry 2 | From unit 13 of Mynediad coursebook | Classroom | Aberystwyth | South | Tuesday | 14:00 - 16:00 | 12/12/2023 | 30 | NA24/5-09-M2-de |
| Entry 2 | From unit 20 of Mynediad coursebook | Online | Teams | South | Thursday | 19:00 - 21:00 | 14/12/2023 | 30 | OB24/5-11-M2-de |
| Entry 2 | From unit 16 of Mynediad coursebook | Online | Zoom | North | Tuesday | 19:00 - 21:00 | 09/01/2024 | 30 | OB24/5-12-M2-gog |
| Foundation 1 & 2 | From unit 1 of Sylfaen coursebook | Online | Zoom | South | Tues & Thurs | 09:30 - 11:30 | 09/01/2024 | 30 | OB24/5-03-S12-de |
| Foundation 1 | From unit 1 of Sylfaen coursebook | Classroom | Llanrhaeadr ym Mochnant | North | Thursday | 18:30 - 20:30 | 16/11/2023 | 30 | NJ24-11-S1-gog |
| Foundation 1 | From unit 1 of Sylfaen coursebook | Online | Zoom | South | Tuesday | 19:00 - 21:00 | 07/11/2023 | 30 | OB24/5-04-S1-de |
| Foundation 1 | From unit 5 of Sylfaen coursebook | Online | Zoom | South | Thursday | 10:00 - 12:00 | 30/11/2023 | 30 | OB24/5-07-S1-de |
| Foundation 2 | From unit 10 of Sylfaen coursebook | Online | Zoom | South | Monday | 19:00 - 21:00 | 11/12/2023 | 30 | OB24/5-06-S2-de |
| Foundation 2 | From unit 17 of Sylfaen coursebook | Online | Zoom | North | Monday | 09:30 - 12:30 | 06/11/2023 | 24 | OB24-45-S2-gog |
| Foundation 2 | From unit 11 of Sylfaen coursebook | Online | Zoom | South | Thursday | 09:30 - 11:30 | 07/12/2023 | 30 | OB24/5-10-S2-de |
| Canolradd 1 | From unit 24 of Sylfaen coursebook | Hybrid | Zoom & Llanfyllin | North | Tuesday | 08:00 - 11:00 | 07/11/2023 | 24 | HJ24-01-S2-gog |
| Canolradd 2 | o Uned 11 y cwrslyfr Canolradd | Ar-lein | Zoom | De | Gwener | 09:30 - 12:30 | 10/11/2023 | 24 | OB24-59-C2-de |

## Arholiadau CBAC
## Defnyddio'r Gymraeg
## WJEC Examinations
# 2024

| | **Dyddiad** Date | **Dyddiad cau** Deadline | **Dolen i gofrestru** Link to register |
|---|---|---|---|
| **Mynediad Ionawr** | Dydd Gwener 26/01/2024 | 7 Rhagfyr 2023 | **Cofrestrwch yma** Register here |
| **Mynediad Dydd** | Dydd Mawrth 11/06/2024 | 1 Mawrth 2024 | **Ar gael yn fuan** Available shortly |
| **Mynediad Nos** | Dydd Iau 13/06/2024 | 1 Mawrth 2024 | **Ar gael yn fuan** Available shortly |
| **Sylfaen** | Dydd Gwener 21/06/2024 | 1 Mawrth 2024 | **Ar gael yn fuan** Available shortly |
| **Canolradd** | Dydd Gwener 14/06/2024 | 1 Mawrth 2024 | **Ar gael yn fuan** Available shortly |
| **Uwch** | Dydd Mercher a bore Iau 19-20/06/2024 | 1 Mawrth 2024 | **Ar gael yn fuan** Available shortly |

**Ein bwriad yw i gynnal yr arholiadau wyneb yn wyneb - lleoliad yn dibynnu ar niferoedd. Mae manylion arholiadau CBAC ar gael wrth glicio'r lefel priodol. Gall profion llafar yn unig gael eu cynnig ar-lein.** For examination information from the WJEC, click on the appropriate level. We plan to hold in-person exams, location depending on demand. Speaking tests may be available on-line.

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ceredigion, Powys a Sir Gâr**
**Ceredigion, Powys & Carmarthenshire**

# Ar Droed Natur gyda Iolo Williams



## Parc Bywyd Gwyllt Cilgerran
**15/03/2024, 10.30yb**

Taith dywys yn y Gymraeg sy'n addas i siaradwyr Cymraeg hen a newydd - lefelau Canolradd ac Uwch os wyt ti'n dal i ddysgu.



Siarad. Rhannwch eich Cymraeg

cysyllta â:
ardroed@mentrauiaith.cymru

Mwynhau'r Gymraeg

dysgucymraeg.cymru learnwelsh.cymru | menter iaith Sir Benfro | MENTRAU IAITH | Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth / Made possible with Heritage Fund | Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government

# Ar Droed Natur gyda Iolo Williams



## Gwlypdiroedd Casnewydd
**19/03/2024, 10:30yb**

Taith dywys yn y Gymraeg sy'n addas i siaradwyr Cymraeg hen a newydd - lefelau Canolradd ac Uwch os wyt ti'n dal i ddysgu.



Siarad. Rhannwch eich Cymraeg

cysyllta â:
ardroed@mentrauiaith.cymru

Mwynhau'r Gymraeg

dysgucymraeg.cymru learnwelsh.cymru | MENTRAU IAITH | MENTER IAITH CASNEWYDD | Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth / Made possible with Heritage Fund | Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

# Top up your Duolingo!

Dysgu Cymraeg ar Duolingo?

Join us for a free, virtual session for conversational practice.

**7 - 7.30yh 14 Tachwedd ar Zoom**

Sign up at **learnwelsh.cymru**

Ymunwch â ni mewn sesiwn rhithiol i ymarfer sgwrsio.



Llywodraeth Cymru / Welsh Government | CYMRAEG | Dysgu Learn

Theatr Genedlaethol Cymru

# Rhinoseros

Mewn pentref tawel, mae rhinoseros yn taranu trwy'r strydoedd. Mae pawb wedi drysu'n llwyr. O ble ddaeth yr anifail arswydus?



Mewn pentref tawel, mae rhinoseros yn taranu trwy'r strydoedd. Mae pawb wedi drysu'n llwyr. O ble ddaeth yr anifail arswydus?

Ond, fesul un, caiff holl drigolion y pentref eu hudo gan y drefn newydd a'u trawsnewid i mewn i fwystfilod. Wrth i'r byd a'i bobl newid o'i gwmpas, mae'r arwr annhebygol Bérenger (Rhodri Meilir) yn gafael yn dynn yn ei hunaniaeth ac yn gwrthod ildio – ond beth ydy'r gost o beidio cydymffurfio?

Yn llawn hiwmor annisgwyl a thensiwn hunllefus, mae Rhinoseros yn sylwebu ar gymdeithas, eithafiaeth a sut y gall casineb ledaenu fel feirws. Mor berthnasol nawr ag erioed, daw'r campwaith abswrd hwn gan Eugène Ionesco i lwyfannau Cymru yn yr addasiad cyntaf i'r Gymraeg gan Manon Steffan Ros ac o dan gyfarwyddyd Steffan Donnelly.

Byddwch yn ofalus – mae'r rhinoserosod yn dod!

A rhinoceros thunders through the streets of a quiet village. Everyone is baffled. Where did this terrifying animal come from?

But, one by one, the village residents succumb to the new order and transform into beasts. As the world and the people around him change, the unlikely hero Bérenger (Rhodri Meilir) clutches on to his identity and refuses to give in – but what is the cost of not conforming?

Filled with unexpected humour and nightmarish tension, Rhinoseros is a commentary on society, extremism and how hatred can spread like a virus. As relevant now as ever, this absurdist masterpiece by Eugène Ionesco comes to Welsh stages in its first Welsh language adaptation by Manon Steffan Ros under the direction of Steffan Donnelly.

Watch out – the rhinoceroses are coming!

---

4 Tachwedd 2023
7.30pm
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

9 Tachwedd 2023
7.30pm
Theatr y Hafren y Drenewydd

14 Tachwedd 2023
7.30pm
Mwldan, Aberteifi

# Cystadlaethau'r Dysgwyr

## Merched y Wawr 2024

**Lefel Sylfaen (hyd at 100 o eiriau) - 'Pam dw i'n dysgu Cymraeg'**
**Lefel Canolradd (hyd at 150 o eiriau) - 'Llefydd sy'n bwysig i fi'**
**Lefel Uwch/Hyfedredd (hyd at 500 o eiriau) - 'Dysgu Cymraeg - beth nesaf i mi?'**

Does dim hawl ymgeisio ar gystadleuaeth ar ôl ennill arni, ond cewch chi gystadlu ar gystadleuaeth lefel yn uwch. Dylech chi nodi eich enw, cyfeiriad a rhif ffôn cyswllt mewn amlen neu ar ebost a rhoi ffugenw ar eich gwaith.

Bydd yr enillwyr yn derbyn tocyn llyfr a thlws yn yr Ŵyl Haf ym Machynlleth 18 Mai 2024. Os mai merch fydd yn enill, bydd yn derbyn aelodaeth blwyddyn o Ferched y Wawr.

Danfonwch y ceisiadau i'r cyfeiriad isod erbyn 1af o Fawrth 2024:
Cystadleuaeth y Dysgwyr, Canolfan Merched y Wawr,
Stryd yr Efail, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1JH neu dros ebost at
swyddfa@merchedywawr.cymru

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r Ganolfan Genedlaethol ar 01970 611 661 neu swyddfa@merchedywawr.cymru

DYDDIAD CAU - 1AF O FAWRTH 2024









## Learn Welsh Course for Complete Beginners

### Entry 1 Welsh at Home Course for parents and carers

**Mondays 1.15 - 2.45pm for 30 weeks | only £30**
**from 6th November 2023 Online on Zoom**

Arholiad CBAC WJEC Examination

# Mynediad Ionawr

## Gwener 26.01.24

Lleoliad yn dibynnu ar y galw | Location depeding on demand

**07.12.23** Dyddiad cau i gofrestru | Closing date to register

wjec cbac

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

# PLYGAIN

Anfonwch fanylion eich gwasanaeth!

Send us your service details!

**plygain@gmail.com**

27 Tachwedd: Llanafan, Ceredigion 5.00
2 Rhagfyr: Eglwys Sant Silyn Llansilyn 7.30
4 Rhagfyr: Tabernacl, Llanfyllin 6.30
11 Rhagfyr: Croesyceiliog, Caerfyrddin 6.30
13 Rhagfyr: Capel Cymraeg y Trallwm 7.00
15 Rhagfyr: Eglwys Sant Ioan Penrhyncoch 7.00
16 Rhagfyr: China St, Llanidloes 7.30
18 Rhagfyr: Pontrobert, Meifod 6.00
25 Rhagfyr: Capel John Hughes Pontrobert 6.00
1 Ionawr: Eglwys St Erfyl, Llanerfyl 6.00
1 Ionawr: Capel Cefnblodwel Powys 7.00
6 Ionawr: Ebeneser, Dinas Mawddwy 7.00
6 Ionawr: Capel Moreiah, Llanfair Caereinion 7.00
8 Ionawr: Llanddarog, Eglwys St Twrog 5.30
13 Ionawr: St Tydecho, Mallwyd 7.00
15 Ionawr, Myddfai Llamymddyfri 5.00
15 Ionawr, Capel Blaenannerch, Ceredigion 7.00
22 Ionawr, Capel MC Nantgaredig 6.30
29 Ionawr, Eglwys St Teilo, Llandeilo 6.00

Wyt ti erioed wedi bod i wasnaeth Plygain? Hoffet ti gael blas o traddodiad Nadoligaidd Cymreig arebnnig?

**Beth ydi Plygain?**

Gwasanaeth unigryw a gynhelir yng Nghymru o gwmpas cyfnod y Nadolig yw'r Plygain - gwasanaeth gyda'r pwyslais ar ganu carolau traddodiadol, yn ddigyfeiliant. Erbyn 2020 roedd tua 40 o wasanaethau plygain yn cael eu cynnal mewn gwahanol rannau o'r wlad, dros gyfnod sy'n ymestyn o ddydd Sul cyntaf mis Rhagfyr hyd at ddiwedd Ionawr.

**Ble mae'r Plygain agosaf?**

Mae Dyddiadur Plygain ar gael ar www.plygain.org yn rhestru Plygeiniau ar draws y wlad.

Os wyt ti'n gwybod am Blygain sydd ddim ar y rhestr ebostia'r wybodaeth i plygain@gmail.com.

Have you ever been to a Plygain service? Would you like a taste of a special Welsh Christmas tradition?

**What is a Plygain?**

A Plygain is a unique, special form of carol service held in parts of Wales around Christmas - a service with its emphasis on singing traditional carols, unaccompanied. Many of these carols are very old. By 2020 there were around 40 of these services in different parts of the country, from early December until late January.
The services are held in chapels as well as churches.

**Where is my nearest Plygain?**


A Plygain Diary is available on www.plygain.org listing Plygain services across Wales.

If you know of a Plygain that isn't on the list, email the information to plygain@gmail.com.

Iaith • Amgylchedd • Economi • Cymuned

Chwilio am leoliad ar gyfer digwyddiad tîm o staff / hyfforddiant / grŵp?

Gall Llety Arall gynnig profiad unigryw wedi ei deilwra i chi.







## Aros

Mae 8 llofft en suite ar gael yn Llety Arall i unigolion ac i grwpiau – wedi eu cynllunio yn ofalus i sicrhau arhosiad braf mewn awyrgylch cartrefol.

## Digwyddiadau a chyfarfodydd

Mae ein gofod cymunedol, Lle Arall, yn lleoliad arbennig ac yn gallu cael ei addasu ar gwahanol fathau o ddigwyddiadau. Mae'r offer ac adnoddau ar gael i'w llogi, ac opsiwn o gynnal cyfarfod hybrid.

## Gweithgareddau

Gallwn eich helpu i drefnu profiadau lleol yn dibynnu ar eich diddordebau – o daith tywys hanes i badlfyrddio i sesiwn gwylltgrefft (bushcraft). Mae mynyddoedd Eryri a thraethau Môn a llu o weithgareddau ar gael o fewn cyrraedd hawdd.

---

## Stay

We have 8 en suite rooms at Llety Arall, all planned carefully to ensure you have a pleasant stay in comfortable surroundings.

## Events and meetings

Our community space, Lle Arall, can be adjusted to meet your requirements. Equipment and resources also available to hire, with an option of holding hybrid meetings.

## Activities

We can help you organise local experiences depending on your interests – from historical tours to paddleboarding or bushcraft sessions. The mountains of Snowdonia and the beaches of Anglesey and a host of activities are available within easy reach.

We are a community enterprise and operate in a sustainable way which is environmentally friendly which supports the circular economy.

Contact us to discuss your event: post@lletyarall.org | 07721497283





# Clwb Darllen a Mwy

## 19:00 nos Iau unwaith y mis

Addas i ddysgwyr lefel Canolradd ac Uwch

23 Tachwedd 2023 7pm ar Zoom
Hanes Lludd a Llefelys a Culhwch ac Olwen

Yn ogystal â'r straeon, byddwn ni'n cyflwyno fideos, cerddi a chaneuon perthnasol.

Croeso cynnes i bawb yn enwedig i aelodau newydd.
I fynychu, ebostiwch am ddolen Zoom: riv1@aber.ac.uk

Dyddiadau yn y flwyddyn newydd:
5 Ionawr 2024
22 Chwefror 2024

Os dych chi wedi derbyn e-byst gyda straeon yn y gorffennol, does dim angen i chi ailgofrestru. Os hoffech chi ymuno â'r grŵp am y tro cyntaf, cysylltwch â Richard Vale, e-bost: riv1@aber.ac.uk, ac fe gewch chi'r storïau i'w darllen a'r ddolen tua wythnos cyn y cyfarfodydd.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire




# BETH AMDANI !



# WYTHNOS BYW'N GYMRAEG

Hwyliaith

Pump diwrnod llawn antur yng Ngorllewin Cymru. Y bwriad hefyd yw codi hyder yn y Gymraeg gyda llawer o weithgareddau diddorol.




Llety: Garth Newydd, Llanbed
Ceredigion SA48 7AA

**Am fwy o wybodaeth ewch i www.paned.cymru**




# LIVE WELSH WEEK



# WYTHNOS BYW'N GYMRAEG

Hwyliaith

A five day Welsh adventure in West Wales full of activities.
The aim is to have fun and raise confidence in speaking Welsh.




Accommodation: Garth Newydd, Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AA

**For more information visit www.paned.cymru**









# Ffair Nadolig Rithiol
## Virtual Christmas Fair

**Nos Iau, 23 Tachwedd am 8.00pm**
**Thursday evening, 23 November at 8.00pm**

**Edrych am anrhegion Nadolig i blant?**
**Cyfle i glywed am lyfrau ac anrhegion Cymraeg hyfryd.**

**Looking for presents for children?**
**Find out about some great Welsh books and gifts.**

**Sesiwn Cymraeg, ond cyfieithu ar y pryd ar gael.**
**Welsh language session, with simultaneous translation provided.**




dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru Welsh Government

CYMRAEG Dysgu Learn

Mwynhau'r Gymraeg

Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn cyflwyno | introducing..

# COFFI A CHLONC
# COFFEE AND CHAT

Pob dydd Iau am 10.30yb
Every Thurday at 10.30am

Ar | On: Zoom



Cyfle i sgwrsio dros ddished mewn awyrgylch hamddenol. Addas i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.

A chance to chat over a cuppa in a relaxed atmosphere. Suitable for Welsh speakers and learners.

I gofrestru | To register:
ymholiad@mgsg.cymru

Mwynhau'r Gymraeg

Menter Gorllewin Sir Gâr

Mentrau Iaith

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Digwyddiadau • Ar-lein • Ar-lein • Ar-lein • Ar-lein

# Clwb Hwb Maldwyn

Bore Mawrth cyntaf bob mis First Tuesday of the month
10.30 - 11.30 Croeso i bob lefel All levels welcome
Cwrdd Next meetings
7 Tachwedd, 5 Rhagfyr 2023

Cyswllt | Contact Mererid Roberts mhr7@aber.ac.uk

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ceredigion, Powys a Sir Gâr**
**Ceredigion, Powys & Carmarthenshire**




# Sgwrsio Fin Nos

**Nos Fercher olaf y mis (fel rheol)**

**19:00 - 20:00 Mercher, 29 Tachwedd 2023**

i gael dolen / for a link

Jaci Taylor jmt@aber.ac.uk

Croeso i ddysgwyr ar bob lefel
Learns ar all levels are welcome

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ceredigion, Powys a Sir Gâr**
**Ceredigion, Powys & Carmarthenshire**

## Cerddwyr Cylch Teifi



10:30 - 12:30 **Sadwrn unwaith y mis | Monthly on Saturdays**
Sadwrn 11 Tachwedd | Ardal Cilgerran
**Clwb cerdded fisol, croeso i bob lefel**
**Monthly walking club, all levels welcome**
Cyswllt | Contact philippa.gibson@gmail.com 01239 654561



# Ar Gered:
## Lliwiau'r Hydref
### Teithiau Cerdded Cymraeg i bawb

Dydd Sadwrn Medi 30ain - 10yb
Gelli Ddu ger Trawsgoed

Dydd Sadwrn Hydref 21ain - 10yb
Grogwynion ger Llanafan

Dydd Sadwrn Tachwedd 25ain - 10yb
Coed Maenarthur ger Pontrhydygroes

Dydd Sadwrn Rhagfyr 30ain - 10yb
Hafod ger Cwmystwyth

I ddysgu mwy ac i gofrestru e-bostia:
**steffan.rees@ceredigion.gov.uk**

cered · Mentrau Iaith · Mwynhau'r Gymraeg · Cyngor Sir Ceredigion County Council

# Clwb C Aberystwyth

**Home Café, Heol y Wig | Pier Street, Aberystwyth**

**Bob bore Iau Every Thursday 11:00 - 12:00**

Cysylltwch â Contact Jacqueline Willmington

j.willmington@btinternet.com

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ceredigion, Powys a Sir Gâr**
**Ceredigion, Powys & Carmarthenshire**

Croeso i bawb, yn enwedig i ddysgwyr lefel Mynediad Sylfaen a Chanolradd!

All learners are welcome, especially those on Entry, Foundation & intermediate levels

## Paned a Sgwrs
**i Ddysgwyr Cymraeg a Siaradwyr Newydd**



Sgwrs fer ar thema **Fy Hoff Le** (15-20 munud) yna paned a sgwrs anffurfiol i bawb gael ymarfer eu Cymraeg

Caffi Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
10.30 - 11.30
bore Sadwrn cyntaf pob mis

**Croeso mawr i bawb o bob gallu!**

Eglwys Efengylaidd Aberystwyth




**Drama ar Drothwy Drws**

Cefnogwch theatr Gymraeg am ffracsiwn pris y sioe o'r West End.

Dewch i weld premiere proffesiynol Y Fenyw Mewn Du yn eich theatr leol o £10 yn unig.

Trosiad gan Gwawr Loader
Cyfarwyddwyd gan Geinor Styles


Am y tro cyntaf, trwy gyfrwng y Gymraeg, cyfle i brofi sioe lwyddiannus o'r West End sydd wedi bod yn codi ias ar gynulleidfaoedd ers 30 mlynedd.

*Hanner awr wedi naw ar Noswyl Nadolig oedd hi ...*

Bu cyfnod pan nad oedd Arthur Kipps yn credu mewn ysbrydion ond roedd hynny cyn iddo ymweld â Thŷ'r Gors Ddu. Wedi cyrraedd pen ei dennyn, mae Arthur yn cyflogi actor i'w helpu i adrodd ei stori er mwyn gwaredu'r erchyllterau sy'n hunllef iddo.

Yn dilyn llwyddiant Shirley Valentine, mae'r Consortiwm Cymraeg yn dychwelyd ac yn cynnig llwyfaniad ffres o'r stori frawychus hon.

Feiddiwch chi ddod i weld *Y Fenyw Mewn Du*?




**Iau 26 - Sad 28 Hydref Pafiliwn Y Grand, Porthcawl**
**awenboxoffice.com 01656 815995**

**Iau 2 - Sad 4 Tachwedd Theatr Soar, Merthyr Tudful**
**theatrsoar.cymru 01685 722176**

**Gwe 10 - Sad 11 Tachwedd Theatr Y Borough Y Fenni**
**boroughtheatreabergavenny.co.uk 01873 850805**

**Iau 16 - Sad 18 Tachwedd Y Neuadd Les, Ystradgynlais**
**thewelfare.co.uk 01639 843163**

Archebwch nawr!

14+


Ci a Fi
Teithiau Cerdded yn y Drenewydd
Sadwrn 11 Tachwedd a 9 Rhagfyr 2023
Cwrdd 10am Hafan yr Afon
Paned a sgwrs ar ôl y dro, croeso i siaradwyr naturiol a newydd o bob lefel ac oed
Welsh Walks in Newtown
Saturday 11 November & 9 December 2023
Meet 10am Hafan yr Afon
Cuppa and chat after the walk, every level of Welsh learner welcome
dlg3@aber.ac.uk
dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire


CLWB Y DDERWEN
CLWB SGWRSIO NEWYDD I DDYSGWYR YN LLANIDLOES
Cyfle am sgwrs efo dysgwyr Cymraeg eraill
Bob bore dydd Llun, 10.30am
Y Trewythen, Llanidloes
Manylion gan Sue Hyland: sueh52@btinternet.com
dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

# Digwyddiadau Powys • Powys • Powys










Bore coffi a chlonc
Coffee and a chat
Caffi Diod - Bore Iau - 10:30YB
Diod Cafe - Thursday morning - 10:30AM
Ymunwch am sgwrs i ymarfer eich gymraeg yn Caffi Diod, Llandeilo
Come and practise your welsh at Diod Cafe, Llandeilo
d
Menter Dinefwr


Mwynhau'r Gymraeg
Mae Menter Gorllewin Sir Gâr ar Atom yn cyflwyno | introducing..
PANED A SGWRS
CUPPA AND CHAT
Pob dydd Mawrth am 10yb
Every Tuesday at 10am
Yn | At: Caffi'r Atom's Café
Cyfle i sgwrsio dros ddished mewn awyrgylch hamddenol. Addas i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.
A chance to chat over a cuppa in a relaxed atmosphere. Suitable for Welsh speakers and learners.
I gofrestru | To register: betsan@mgsg.cymru
Mwynhau'r Gymraeg
atom
Menter Gorllewin Sir Gâr
MENTRAU IAITH
Llywodraeth Cymru Welsh Government


Mwynhau'r Gymraeg
Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn cyflwyno | introducing..
PANED A PHAPUR
CUPPA AND PAPER
Dydd Mercher (bob pythefnos) am 12yp
Wednesday (Fortnightly) at 12pm
Yn | At: Amgueddfa Wlân | Wool Museum, Drefach Felindre
Cyfle i sgwrsio dros ddished mewn awyrgylch hamddenol. Addas i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.
A chance to chat over a cuppa in a relaxed atmosphere. Suitable for Welsh speakers and learners.
I gofrestru | To register: luned@mgsg.cymru
Mwynhau'r Gymraeg
Menter Gorllewin Sir Gâr







Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
National Botanic Garden of Wales

## Ymaferwch eich Cymraeg yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol

## Practise your Welsh in the National Botanic Garden

Beth am ddod i'r Ardd Fotaneg bob dydd Llun*, 11yb-12 canol dydd i gwrdd â dysgwyr eraill, cael sgwrs a chlywed gan rai o aelodau staff yr Ardd.

Mae'r sesiynau hyn yn dechrau ddydd Llun 2 Hydref yng Nghaffi Botanica sydd wedi'i leoli yn y Bloc Stablau – y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw troi i fyny.

Mae croeso hefyd i siaradwyr Cymraeg rhugl ddod draw a helpu dysgwyr i ymarfer.

Mae mynediad arferol i'r Ardd yn berthnasol ac mae gan aelodau fynediad am ddim.

* Yn ystod tymor ysgol yn unig.

Cysylltwch â gruffydd.thomas@gardenofwales.org.uk am ragor o wybodaeth.

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
Llanarthne, SA32 8HN
garddfotaneg.cymru

Why not come to the Botanic Garden every Monday*, 11am-12 noon to meet other learners, have a chat and hear from some of the Garden's staff members.

These sessions start on Monday 2nd October in Caffi Botanica which is located in the Stable Block – just turn up.

Fluent Welsh speakers are also welcome to come along and help learners practise.

Normal Garden admission applies and members have free entry.

*During school term times only.

Contact gruffydd.thomas@gardenofwales.org.uk for further information.

National Botanic Garden of Wales
Llanarthne, SA32 8HN
botanicgarden.wales

# **Cymorth Ariannol** Financial Support



**Mae cymorth ariannol ar gael os dych chi'n mynychu cwrs Dysgu Cymraeg drwy'r Gronfa Ariannol.**

**Mae'n bosib cael cymorth gyda:**
***chostau offer cyfrifiadurol**
*** mynediad i'r rhyngrwyd**
*** gofal plant**
*** adnoddau**
*** costau teithio**

**Yn anffodus, nid oes modd hawlio cymorth at ffioedd cwrs.**

Financial support is available to those attending a Learn Welsh course via the Financial Contingency Fund.

Support is available with costs such as
* computer equipment
* internet access
* childcare
* resources
* travel costs

Unfortunately, it is not possible to claim for course fees.








# Cwrs Haf Dwys, Aberystwyth 10 Gorffennaf - 4 Awst 2023

**adroddiad Ioan Guile**

Yn ystod profiad digynsail cyfnodau clo'r pandemig bu cyfarfodydd Zoom yn cynnal gwersi Cymraeg ar gyfer siaradwyr newydd yr iaith. Erbyn hyn mae rhai cyrsiau Cymraeg wedi dychwelyd i'r ystafell ddosbarth a'r dysgwyr hynny yn falch o ddod at ei gilydd unwaith eto i gyd-ddysgu wyneb yn wyneb. Dyna fu hanes Cwrs Haf Dwys, Aberystwyth a gynhaliwyd dros bedair wythnos ar gampws Penglais wedi dwy flynedd o fod ar-lein. Ym mis Gorffennaf daeth tua chant a phymtheg o bobl o bedwar ban y byd a phob cwr o Brydain Fawr i ddysgu ac ymarfer y Gymraeg; rhai ohonynt yn siaradwyr gwbl newydd ac eraill yn fwy profiadol, rhai ohonynt ar eu hymweliad cyntaf â'r dref ac eraill yn hen ffrindiau i'r cwrs.

Eto eleni, roedd modd dewis cyrsiau dysgu Cymraeg ar lefelau Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch 1, 2, a 3 ac, yn ogystal, fe gynigiwyd Cwrs Proffesiynol yn ystod yr wythnos gyntaf. Cymaint oedd y nifer a gofrestrodd ar gyfer y Cwrs Mynediad fel y bu rhaid darparu dau ddosbarth i gyrraedd yr angen.

Bu'r siaradwyr yn mynychu'u gwersi o naw o'r gloch y bore tan bump o'r gloch yr hwyr, ddydd Llun hyd ddydd Gwener gyda thoriad am ginio ac egwyl yn y bore a ph'nawn am baned yng Nghanolfan y Celfyddydau. Dyma gyfle i bawb gymdeithasu a mentro defnyddio eu Cymraeg mewn awyrgylch hamddenol ac i fanteisio ar y cyfle i brynu nwyddau a ddarparwyd ar stondinau gan Siop Inc a Siop y Pethe. Fel rhan o ddysgu anffurfiol y cwrs, gwahoddir siaradwyr Cymraeg o'r gymuned i ddod am un p'nawn yr wythnos i sgwrsio â'r dysgwyr yn eu dosbarthiadau. Nid ar chwarae bach mae trefnu rhestr o ymwelwyr ar gyfer y digwyddiad yma a mawr yw'r diolch i'r rhai hynny o'r ardal a wirfoddolodd i ddod ac ymestyn profiadau dysgu'r dysgwyr.

Mae'n draddodiad i'r Cwrs Haf fwynhau p'nawn difyr yng nghwmni staff y Llyfrgell Genedlaethol. Cafodd y dosbarthiadau deithiau tywys o gwmpas yr adeilad gan gynnwys ymweliad âg adnodd mwyaf diweddar y Llyfrgell sef arddangosfa Archif Ddarlledu Cymru.

Ymwelydd cyfarwydd â'r cwrs yw Andrew Hawke, Golygydd Rheolaethol Geiriadur Prifysgol Cymru a ddaeth yng nghwmni rhai o'i staff i sôn am y geiriadur ac i ddarparu cwis ymarferol a diddorol i gyd-fynd â'r sesiwn.

Rhan annatod o'r Cwrs Haf yw'r gweithgareddau gyda'r nos. Bu rhai o diwtoriaid Canolfan Dysgu Cymraeg Ardal Ceredigion, Powys a Sir Gâr wrth y llyw yn cynnal nosweithiau hwyliog gan gynnwys cwis gweledol, gemau iaith, canu a noson ddifyr o sgwrsio a cherddoriaeth gan y gantores, Lisa Angharad. Cafwyd, hefyd, cyflwyniad gan yr Athro Mererid Hopwood a darlithwyr Adran Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd y Brifysgol a thipyn o sbort wrth drafod y gynghanedd!

Braf oedd ymgynnull yn Eglwys y Santes Fair a chael Noson Groeso gan yr aelodau, gwrando ar y côr a'r delyn, clywed am brofiadau dysgu'r Gymraeg, canu ambell emyn a mwynhau cyfle i ymddiddan â chynulleidfa'r eglwys dros baned a chacen. Daeth nifer fawr at ei gilydd ym MedRus Mawr ar gyfer Noson Lawen gyda Pharti Canu Cyd ac i wylio tiwtoriaid y cwrs yn perfformio sgets gan Jaci Taylor wedi'i seilio ar hanes Sinderela a'r ymgyrch i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg! Yn dilyn cyflwyniadau gan dri thiwtor y cwrs a fu, ar un adeg, yn ddysgwyr eu hunain, mwynhawyd hwyl a sbri Twmpath Dawns yng ngofal Dawnswyr Gwerin Aberystwyth a'u cerddorfa a gwên ar wyneb pawb wrth droi tua thre ar ddiwedd y noson. Gweithgaredd olaf y cwrs oedd dwy daith gerdded hanesyddol yn nhref Aberystwyth; y naill dan arweiniad Rhun Emlyn, darlithydd yn Hanes Cymru a'r llall yng ngofal tiwtor o'r cwrs. Dyma oedd y tro olaf i aelodau'r cwrs fod gyda'i gilydd cyn iddynt deithio nôl i'w cartrefi a'u teuluoedd a chafwyd noson o gymdeithasu a hel straeon yn nhafarn Rummers i gau pen y mwdwl. Diolch o galon i bob un a gyfrannodd at lwyddiant y Cwrs Haf eleni ac yn arbennig Felicity Roberts am ei gwaith diflino fel cydlynydd y cwrs. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at groesawu mwy o siaradwyr newydd y Gymraeg i Geredigion unwaith eto yr haf nesaf.

## Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg Radio Cymru

Radio Cymru’s Week Celebrating Learning Welsh

Mae modd gwrando ar sgwrs Felicity fan hyn






**Fel rhan o Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg Radio Cymru, roedd ein Tiwtor Felicity Roberts ar Beti A’i Phobl**

**mae modd gwrando fan hyn**

BBC RADIO CYMRU

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ceredigion, Powys a Sir Gâr**
**Ceredigion, Powys & Carmarthenshire**

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

**Ceredigion, Powys a Sir Gâr**
**Ceredigion, Powys & Carmarthenshire**

# Cwrs Haf Dwys 2024

## 4 week intensive Learn Welsh Summer Course

8 **Gorffennaf - 2 Awst 2024**

8 July - 2 August 2024

